## Dydd Gwener y Groglith

**Darllen Marc 15:20b–39 (neu Marc 15:6–39)**

Gosodwch groes mewn lle amlwg a gofynnwch i bawb sy'n bresennol fyfyrio arni ac ar deimladau'r disgyblion cyntaf ar Ddydd Gwener y Groglith.

*Tawelwch*

Ni all dim, O! Dduw,
ein paratoi ar gyfer realiti cignoeth y dydd hwn.
Doedden ni, ddisgyblion Crist,
ddim am ddeall
mai diwrnod fel hwn fyddai Dydd ein Harglwydd.

Ni all dim ein paratoi
ar gyfer realiti drygioni.
Dydyn ni ddim am wybod
fod y dwylo hynny wedi eu hoelio ar y groes,
na bod plant yn medru cael eu cipio a'u lladd,
na bod modd difodi cenhedloedd cyfain.

Ni all dim ein paratoi
ar gyfer realiti dioddefaint.
Dydyn ni ddim am glywed
cri annaearol Iesu ar y groes;
nac ocheneidiau cleifion mewn poen;
nac wylofain mamau dros eu plant newynog.

Ni all dim ein paratoi, O! Dduw,
ar gyfer realiti marwolaeth.
Dydyn ni ddim am weld Iesu yn ein gadael,
nac am glywed anadl olaf ein hanwyliaid,
nac am gydnabod ein meidroldeb ein hunain.

Ni all dim ein paratoi
ar gyfer realiti Gwener y Groglith,
a dim ond ti, Arglwydd, all ein cysuro
drwy gyflawni ein gobeithion drosom ar fore'r Pasg.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***